**Tasg 2**

# Calon yr Aztec

Rydych chi'n aelod o lwyth hynafol yr Azteciaid, dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae cynnwrf mawr yn y pentref gan ei bod hi'n ddiwrnod aberthu i'r duwiau. Fel aelod o'r dorf sy'n ymgasglu ar y sgwâr yn barod ar gyfer yr achlysur, ysgrifennwch ddarn, tua thudalen o hyd, yn disgrifio eich teimladau ynglŷn â'r digwyddiad, y synau a'r arogleuon o'ch cwmpas. Efallai y byddwch chi'n aros i wylio'r cyfan, ond efallai y bydd yr holl beth yn ormod i chi ac y byddwch chi'n dewis dianc o'r golwg. Mae'r dewis i fyny i chi.

Cofiwch ddweud pwy ydych chi a defnyddiwch y synhwyrau i ddisgrifio'ch profiad a'r olygfa'n llawn.